# Cofnodion y cyfarfod o'r Grŵp Ecosystemau Trefol
# 29 Ebrill 2015
# Drwy gynhadledd fideo rhwng CNC Maes y Ffynnon a Swyddfeydd Y Fenni

**Yn bresennol**
**Bangor**
Steve Chambers (SC), Pete Frost (PF) (cadeirydd), Emily Meilleur (EM), Dave Thorpe (DT)
**Y Fenni**
Barbara Anglezarke (BA) (gwestai), Clare Dinham (CD), Sorrel Jones (SJ)
**Ymddiheuriadau**
Amanda Davies, Dafydd Fryer, Liz Howe, Nigel Ajax Lewis, Jan Sherry (JS).

| **Eitem** | Teitl | **Gweithgaredd** |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniadau a Chroeso | Croesawyd EM yn ôl i'r grŵp ar ôl dychwelyd o'i chyfnod sabothol a diolchwyd i Amanda Davies am ei chyfraniad brwdfrydig i'r grŵp yn lle EM. |
| 2 | Ymddiheuriadau a chyflwyniadau ar gyfer UFA | Ni chodwyd unrhyw fater arall. |
| 3 | Cofnodion y cyfarfod diwethaf | Nodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol. |
| 4 | Cynllun gwaith | Adolygwyd y cynllun gwaith tymor hir yng ngoleuni'r cyllidebau a'r adnoddau disgwyliedig. Bydd y cynllun gwaith wedi'i ddiweddaru'n cael ei ddosbarthu. **Cam Gweithredu 1. PF** i ddiweddaru a dosbarthu.<br><br>DS mae'r cofnodion hyn yn adrodd ar y materion a drafodwyd a'r camau gweithredu gofynnol. Nid yw'r addasiadau i'r cynllun gwaith yn cael eu nodi yn y cofnodion hyn ond maent wedi cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r cynllun gwaith.<br><br>*Map safleoedd blaenoriaeth*<br>**Cytunwyd** y dylid ei ddosbarthu fel fformat ffeil GIS a hefyd fel ffeiliau darllenadwy i ddefnyddwyr heb GIS, gan fod toriadau i awdurdodau lleol yn benodol yn lleihau mynediad i GIS.<br><br>Nodwyd, oherwydd natur unigryw OMHoPDL, na fyddai'r map safleoedd blaenoriaeth byth yn cael ei orffen ac y byddai angen ei ddiweddaru'n gyson wrth i safleoedd gael eu dinistrio a'u creu.<br><br>Nododd SJ bod ganddi arbenigedd GIS ac efallai y byddai'n gallu helpu gyda chreu mapiau ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol/LBAP.<br>**Cam Gweithredu 2. SJ** i gysylltu â JS i drafod unrhyw gymorth sydd ei angen.<br><br>Nodwyd bod methodoleg arolygu safleoedd sydd wedi'i datblygu'n dda ar gael ond efallai na fyddai rhai safleoedd tomenni glo'n cymhwyso fel OMHoPDL o safon uchel. Efallai y byddai'n rhaid eu dynodi ar gyfer gwarchodaeth statudol neu am nodweddion eraill, fel rhywogaethau dan fygythiad.<br><br>*Cyfathrebu*<br>Dywedodd PF nad oedd unrhyw gyllid wedi cael ei neilltuo ar gyfer cynhyrchu taflen felly nid oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud gyda'r prosiect hwn. Nodwyd bod gan Buglife wybodaeth helaeth am OMHoPDL ar ei wefan ac er nad oedd yn benodol i Gymru, gallai wasanaethu pwrpas y daflen. Nododd EM y gallai Cyngor Gwynedd gynnig cyfieithiad i'r Gymraeg o bosib.<br>**Cam Gweithredu 3. Pawb** i fynd i wefan Buglife, adolygu'r wybodaeth am |

| | | |
|---|---|---|
| | | OMHoPDL ac adrodd yn ôl i PF erbyn diwedd mis Mai os ydynt yn credu NAD yw'n addas i'w defnyddio yn lle'r daflen arfaethedig. Bydd **PF** yn casglu ymatebion ac os ydynt yn ffafriol, bydd y grŵp yn argymell gwybodaeth Buglife yn lle'r daflen arfaethedig.<br><br>Dywedodd PF bod absenoldeb cyllid yn arwain at ddiffyg cynnydd gyda'r canllaw i reoli OMHoPDL. Nodwyd bod gan Buglife ganllaw i reoli OMHoPDL, ar bapur ac mewn fformat .pdf, ond nid yw'n ddiweddar. **Cytunwyd** i weld a fyddai'n bosib defnyddio hwn fel sail ar gyfer canllaw i reoli OMHoPDL, a fyddai'n cael ei gyllido drwy nawdd.<br>**Cam Gweithredu 4. SJ** a **CD** i ymchwilio i ddenu nawdd gan ABP.<br>**Cam Gweithredu 5. Pawb** i adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf ar noddwyr posib.<br><br>Nodwyd bod llawer o Ymddiriedolaethau Natur wedi datblygu rôl gynghori mewn perthynas â garddio er lles bywyd gwyllt a **chytunwyd** i ddiwygio'r cynllun gwaith i adlewyrchu hynny.<br><br>*Ymchwil*<br>Dywedodd PF bod CNC wedi adolygu'r pecyn adnoddau EcoServGIS ac wedi dod i'r casgliad nad oedd yn addas at y pwrpas a gynigiwyd gan y grŵp hwn. Felly roedd y cynnydd gyda'r prosiect hwn wedi cael ei atal oherwydd cyllid annigonol i ddatblygu pecyn adnoddau o'r dechrau un. Mae CNC yn datblygu'r dull hwn o weithredu gyda Rheoli Cyfoeth Naturiol a byddai'n elwa o becyn adnoddau fel yr un rydym ni'n ei gynnig.<br>**Cam Gweithredu 6. PF** i drafod gydag arweinwyr Rheoli Cyfoeth Naturiol CNC sut gall CNC ddatblygu pecyn adnoddau o'r fath.<br><br>*Polisi a Deddfwriaeth*<br>Nodwyd bod gan y Sefydliad Materion Cymreig ddiddordeb o bosib mewn cynnal seminar neu gyfarfod ar newid deddfwriaethol a pholisi, ond na fyddai unrhyw argymhellion sy'n codi o ddigwyddiad o'r fath o dan reolaeth y grŵp hwn.<br><br>*Arolygu a Monitro*<br>O ystyried y diffyg arian, nodwyd na fyddai CNC yn gallu ymgymryd ag arolygon prawf, na'u cyllido. Fodd bynnag, nodwyd y byddai gan bob grŵp LBAP ddiddordeb o bosib, a bod ganddynt aelodau sydd ag amser ac arbenigedd i arolygu un safle OMHoPDL yr un yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. **Cytunwyd** i ofyn i'r holl grwpiau LBAP roi cynnig ar hyn ac i CNC gasglu'r canlyniadau.<br><br>Nododd Buglife eu bod yn ceisio cyllid craidd o dan drefniadau newydd gan Lywodraeth Cymru ac y gallent ysgrifennu yn eu cais gyllid ar gyfer hyfforddiant ym methodoleg arolygu OMHoPDL. Ni fyddai hyn yn talu'r holl gostau hyfforddi ond nododd y grŵp y byddai pobl yn fodlon talu ffi resymol am fynychu cwrs o'r fath.<br>**Cam Gweithredu 7. PF** i drafod gyda **CD**<br><br>**Cam Gweithredu 8. LH** i adrodd yn ôl ar y cynnydd gyda chynllunio strategaeth oruchwylio.<br><br>**Cam Gweithredu 9. Pawb** i adolygu'r cynllun gwaith wedi'i adolygu, cyflwyno sylwadau arno a dod yn barod i'w gymeradwyo yng nghyfarfod yr haf o'r grŵp hwn. |
| 5 | Mapio OMHoPDL (eitem sefydlog) | Nododd y grwp bod PF wedi llunio drafft o gyflwyniad safonol y gellid ei addasu wedyn i'w ddefnyddio mewn amgylchiadau amrywiol.<br>**Cam Gweithredu 10. Pawb** i wirio eu e-bost ac ymateb i PF gydag unrhyw sylwadau ac ymatebion i gwestiynau am y cyflwyniad erbyn diwedd mis Mai. **PF** i gyhoeddi'r cyflwyniad terfynol erbyn diwedd mis Mehefin.<br><br>Camau Gweithredu 4, 5, a 6 o'r cyfarfod diwethaf wedi'u rhoi ar waith ac maent yn cael eu hatgynhyrchu yma er diben cyfeirio.<br>*Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, dywedodd JS nad oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth newydd na data digidol gan ecolegwyr llywodraeth leol (Cam* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Gweithredu 4 blaenorol). Roedd Cofnod wedi dweud bod ganddynt gyfres ddata o safleoedd bywyd gwyllt yr awdurdod lleol, ond nid oedd gan y rhain wybodaeth am y mathau o gynefinoedd oedd yn cael eu cynrychioli ar y safleoedd.* ***Cam Gweithredu 4: JS*** *i holi am hyn a gweld a oedd data am gynefinoedd wedi'u hychwanegu.*<br><br>*Dywedodd DT bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cael data GIS ar fwyngloddiau metel, safleoedd segur a thir llygredig.* ***Cam Gweithredu 5: DT*** *i geisio cael y data perthnasol.*<br>*Cytunwyd i gyhoeddi map pendant ar gyfer Cymru gyfan o Safleoedd Blaenoriaeth ac OMHoPDL, yn seiliedig ar y data a gynhyrchwyd gan brosiect ymchwil DEFRA a gynhaliwyd gan exegesis.* ***Cam Gweithredu 6: JS*** *i gyfuno unrhyw wybodaeth newydd gan awdurdodau lleol gyda data DEFRA yn un haen GIS a thynnu sylw at safleoedd a oedd ar y rhestr wreiddiol o safleoedd allweddol a luniwyd ar ddechrau oes y grŵp hwn.* ***PF*** *i sicrhau rhestr ddiweddar o gysylltiadau'r awdurdodau lleol gan PBC ac ysgrifennu atynt yn rhoi gwybod iddynt am y map safleoedd blaenoriaeth a sut i gael copi ohono.* ***PF*** *i drefnu i'r data gael ei roi yng nghyfleuster lawrlwytho data CNC.*<br><br>Cofnodwyd Cam Gweithredu 7 o'r cyfarfod diwethaf fel cam wedi'i gwblhau. |
| 6 | Anghenion ymchwil a bylchau tystiolaeth (eitem sefydlog) | Dywedodd PF ei fod wedi drafftio cofnodion ar gyfer y gofrestr bylchau tystiolaeth ar rywogaethau cysylltiedig â chynefinoedd wedi'u creu gan ddyn, ac ar ddarparu rhandiroedd a pheillwyr (gweler Cam Gweithredu 10 y cofnodion blaenorol).<br>**Cam Gweithredu 11. PF** i ddosbarthu'r cofnodion a **Phawb** i gyflwyno sylwadau erbyn diwedd mis Mai.<br>**Cam Gweithredu 12. EM** a **SC** i drafod prosiect bylchau tystiolaeth posib ar fapio OMHoPDL ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. |
| 7 | Polisïau (eitem sefydlog) | Nid oedd unrhyw adroddiadau am bolisïau na deddfwriaeth ar y gorwel y byddai angen i'r grŵp hwn ddylanwadu arnynt. (Cam Gweithredu 13 o'r cyfarfod diwethaf)<br>O dan Gam Gweithredu 11 y cyfarfod diwethaf, dywedodd DT bod rhywun wedi cymryd ei le ar y grŵp Rhywogaethau Estron Ymledol a bod deddfwriaeth newydd wedi cael ei phasio ym mis Ionawr 2015.<br>**Cam Gweithredu 13. DT** i roi briff byr iawn ar y Rheoliad ar atal a rheoli mewn perthynas â chyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron ymledol.<br>Gweler:http://ec.europa.eu/environment/nature/invasivealien/index_en.htm<br>Dywedodd PF ei fod wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion CNC sy'n gyfrifol am Reoli Cyfoeth Naturiol ond nad oedd unrhyw beth arwyddocaol i'w adrodd yn ôl i'r grŵp ers y cyfarfod diwethaf (Cam Gweithredu 12 o'r cyfarfod blaenorol).<br>Mae CNC yn cynnal 3 arbrawf Rheoli Cyfoeth Naturiol gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru yn nalgylch Dyfi, dalgylch Tawe gan gynnwys Abertawe, ac yng Nghwm Rhondda uwch ben Pontypridd. |
| 8 | Gwirio'r camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf | Trafodwyd Camau Gweithredu 1, 2 a 3 o dan eitem 4 yr agenda hon. Nodwyd Camau Gweithredu 4, 5 a 6 o dan eitem 5. Nodwyd Cam Gweithredu 7 fel cam wedi'i gwblhau. Roedd PF wedi anfon manylion am brosiect peilot Rheoli Cyfoeth Naturiol CNC yn y Rhondda i SJ ar e-bost, gan ryddhau Cam Gweithredu 8. Roedd PF wedi dosbarthu manylion am brosiectau'r Gronfa Ecosystemau Cadarn ar e-bost cyn y cyfarfod hwn, gan ryddhau Cam Gweithredu 9. Cafodd Cam Gweithredu 10 sylw o dan eitem 6 ar yr agenda. Cafodd Camau Gweithredu 11, 12 a 13 sylw o dan eitem 7 ar yr agenda. Cafodd Cam Gweithredu 14 sylw o dan eitem 9 ar yr agenda. Roedd Cam Gweithredu 15 wedi'i gwblhau. Cafodd Cam Gweithredu 16 ei ryddhau ac roedd JS wedi adrodd yn ôl i PF ar gyfarfod yr hydref o gadeiryddion y Grwpiau Ecosystemau. |
| 9 | Adolygu aelodaeth (eitem sefydlog) | Yn y cyfarfod diwethaf o gadeiryddion grwpiau ecosystemau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, awgrymwyd bod yr holl grwpiau ecosystemau'n cynyddu eu cynrychiolaeth o'r sector academaidd. Nododd y grŵp gyfranogiad Lorraine Frater yn y grŵp fel cynrychiolydd y sector, yn bersonol a thrwy ohebiaeth, ac mae hyn i'w groesawu. **Cytunodd** y grŵp i geisio chwilio am gynrychiolydd academaidd pellach, rhwydweithiwr gweithredol yn ogystal â rhywun sydd â diddordeb academaidd mewn ecoleg drefol neu ddisgyblaeth gysylltiedig.<br>**Cam Gweithredu 14. SJ** i siarad â'r Grwpiau Peillwyr Trefol o Fryste i gael |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwybod a oes ganddynt hwy gydweithwyr a allai fod yn addas i'w gwahodd i'r grŵp hwn.<br>**Cam Gweithredu 15. PF** i holi Kate Cameron yn CNC i weld a oes ganddi unrhyw gysylltiadau. |
| 10 | UFA | Ni chafodd unrhyw fater arall ei godi. |
| 11 | Cadarnhau'r camau gweithredu yn y cyfarfod hwn | Ni chafodd yr eitem hon ei hystyried. Gofynnir i'r aelodau wirio'r cofnodion hyn a rhoi gwybod am unrhyw broblemau neu hepgoriadau ar unwaith. |
| 12 | Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf | **Cytunodd** y grŵp i gynnwys ymweliad safle yn ei gyfarfod nesaf. **Cytunodd** SJ i ymchwilio i ymweliad safle ar safle ABP yng Nghasnewydd. Bydd yr ymweliad yn cael ei ysgrifennu wedyn fel astudiaeth achos fer. Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei drefnu ar y cyd ag ABP, os yw'n cytuno, a bydd yn digwydd ddechrau mis Gorffennaf neu ym mis Medi. Bydd ystafell gyfarfod o fewn pellter cerdded i'r safle'n bwysig er mwyn lleihau cymhlethdod ac amser teithio ac er mwyn i aelodau allu teithio i ac o'r cyfarfod ar drafnidiaeth gyhoeddus ar yr un diwrnod.<br>**Cam Gweithredu 16. SJ** i holi ABP ac adrodd yn ôl i PF cyn gynted â phosib ac, yn ddelfrydol, erbyn diwedd mis Mai. |
| 13 | Gorffen | Daeth y cyfarfod i ben am 13:05 a diolchodd y cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniad. |